

**COFNODION CYFARFOD O'R BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWDYD YN
SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR DYDD MAWRTH, 12 MAWRTH 2019**

AELODAU

Y Cyngorydd Mark Pritchard, Cadeirydd
Y Cyngorydd Hugh Jones, Is-Gadeirydd

Y Cyngorydd	Andrew Atkinson	Y Cyngorydd	D J Griffiths
"	William Baldwin	"	David Kelly
"	David A Bithell	"	Joan Lowe
"	Terry Evans	"	Phil Wynn

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cyngorwyr Trevor Bates, Brian Cameron, Dana Davies, Mike Davies, Frank Hemmings, R Alun Jenkins, Adrienne Jeorrett, Paul Jones, John Pritchard, Debbie Wallice, Graham Rogers a Robert Walsh

108 DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI

Atgoffwyd yr Aelodau o'u cyfrifoldeb, dan baragraff 11 Cod Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan unrhyw gysylltiad mewn perthynas ag unrhyw un o'r eitemau i'w trafod yn y cyfarfod hwn. Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

Eitem 6 ar y Rhaglen - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Wrecsam
Cyngorwyr Trevor Bates a Joan Lowe – Personol – Tirfeddiannwr. Arhosodd y Cyngorwyr yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio wedi hynny, yn achos Aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

Eitem 7 ar y Rhaglen – Diweddarau Polisi a Ffioedd Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth
Cyngorydd Terry Evans – Personol a rhagfarnus – landlord lleol, perchennog Tai Amlfeddiannaeth. Gadawodd y Cyngorydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth na'r broses bleidleisio wedi hynny.

Eitem 8 ar y Rhaglen - Cynllun Asesu a Rheoli Nodweddion Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam
Cyngorwyr Andrew Atkinson, Adrienne Jeorrett a Phil Wynn – Personol– Aelod o Fforwm/Grŵp Llywio Canol Tref Wrecsam. Arhosodd y Cyngorwyr yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio wedi hynny, yn achos Aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

109 CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD - Llofnodi Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2019 fel cofnod cywir.

**110 CYNNIG I YMGYNGHORI AR Y CYNNYDD MEWN LLEOEDD DISGYBLION YN
YSGOL GYNRADD LŌN BARCAS - ADBORTH YMGYNGHORIAD**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Pobl – Addysg adroddiad (HEd/05/19) i ddarparu adborth ar yr ymgynghoriad diweddar yn ymwneud â chynnig i gynyddu lle i ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Lôn Barcas, a cheisio cymeradwyaeth i gyhoeddi'r Hysbysiadau Statudol perthnasol a'r Adroddiad Ôl Ymgynghori.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol yr adroddiad gan amlygu'r prif bwyntiau ynddo. Trafodwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cadarnhad y byddai'r cyfnod ymgynghori yn caniatáu i drigolion ac aelodau eraill o'r cyhoedd gael cyfle i roi eu barn.
- Ymrwymiad gan yr Aelod Arweiniol y byddai unrhyw wrthwynebiad yn cael ei ystyried yn ofalus ac yr edrychir ar ddewisiadau i leddfu pryderon lle bo'n bosibl.
- Awgrym pe bai'r cais yn symud ymlaen, byddai angen cyflwyno cais cynllunio, byddai hyn yn gyfle arall i drigolion/aelodau'r cyhoedd i godi pryderon os dymument.
- Gofyn am eglurhad mewn perthynas â'r clwb ar ôl ysgol. Dywedodd Swyddogion bod darparu unrhyw glwb o'r fath yn fater i'r ysgolion wneud penderfyniad arno.
- Pryderon wedi eu mynegi gan yr Aelod lleol am broblemau traffig a brofir ar hyn o bryd yn yr ysgol a'r ardal breswyl.
- Awgrym wrth ystyried estyniad ar ysgolion yn y dyfodol, bod opsiynau ar gyfer safleoedd gollwng y disgyblion o fewn ffin yr ysgol yn cael eu hystyried.
- Cydnabod na fynegwyd unrhyw bryderon am y cynnydd mewn capasiti disgyblion yn yr ysgol.

PENDERFYNWYD -

- (i) Bod Aelodau yn nodi'r adborth i'r ymgynghoriad yn adroddiad HEd/05/19 a'r ddogfen ôl ymgynghoriad (fel y manylwyd yn Atodiad 2).**
- (ii) Bod Swyddogion yn cael awdurdod i symud i Hysbysiadau Statudol (fel y manylwyd yn Atodiad 1) ynglŷn â'r cynnig i gynyddu capasiti disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas.**

I greu estyniad i'r adeilad presennol i dderbyn 105 o ddisgyblion ychwanegol (15 disgybl ym mhob grŵp blwyddyn). Byddai cynnydd blwyddyn gyntaf ym mis Medi 2020 ar gyfer dosbarthiadau Meithrin (15 lle) a Derbyn (15 lle) yn unig.

Byddai'r nifer derbyn blynyddol yn cynyddu o 15 lle (o 30 i 45) ar gyfer lleoedd meithrin a derbyn o 2020 ymlaen a byddai'r dosbarthiadau yn bwydo i weddill yr ysgol nes y cyrhaeddir yr uchafswm o ran capasiti o 315 (a 45 lle meithrin).

- (iii) Y dylid delio â'r materion hyn fel eitem frys o fusnes yn unol â Rheol Sefydlog 43 (1) o Reolau Sefydlog y Cyngor.**

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (i) **Mae galw parhaus am leoedd yng nghanol tref Wrecsam. Er ein bod yn bodloni'r galw ar hyn o bryd, rhagwelir twf pellach.**
- (ii) **Ar gyfer y cylch derbyn presennol yn 2018-2019 methodd yr Adran Addysg, yr Awdurdod Derbyn, â bodloni'r galw yn lleol ar gyfer lleoedd ynghanol y dref, a bu'n rhaid gwrthod disgyblion oedd wedi dewis Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas.**
- (iii) **Er mwyn cyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru i leihau meintiau dosbarthiadau cynradd eto, mae'n rhaid darparu mwy o leoedd yn ffisegol, yn enwedig felly ynghanol y dref.**
- (iii) **Mae cyfle wedi codi inni fodloni'r galw ychwanegol drwy ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru nad yw'n rhan o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Llywodraeth Cymru a fyddai'n ariannu'r prosiect hwn 100%.**
- (v) **Hoffem gynnal y cyfnod gwrthwynebiad statudol 28 diwrnod llawn cyn dechrau cyfnod gwyliau'r Pasg. I alluogi hyn, byddai angen i ni gyhoeddi Hysbysiadau Statudol ar neu cyn 15 Mawrth 2019, a fyddai'n dod i ben erbyn 12 Ebrill 2019.**

111 **CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY WRECSAM**

(Datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng Nghofnod 108 uchod)

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Leoedd - Amgylchedd a Chludiant adroddiad (HEP/14/19) yn gofyn am argymhelliad i'r Cyngor i gymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus statudol.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ei adroddiad ac ymatebodd i gwestiynau yn unol â hynny. Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Croesawu'r newyddion y byddai'r cynllun yn gwella mynediad i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd.
- Awgrym bod Swyddogion yn ymgysylltu â phartneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Heddlu, i godi ymwybyddiaeth am y peryglon i gerddwyr sy'n defnyddio llwybrau troed drwy dir ffermio lle roedd da byw yn bresennol.
- Pwysigrwydd gwaith partneriaeth er mwyn gwella cefn gwlad a'i wneud yn fwy hygyrch.
- Byddai'r Pwyllgor Craffu ar Gartrefi a'r Amgylchedd yn monitro cynnydd y cynllun.
- Pwysigrwydd sicrhau bod nodwyr llwybrau yn cael eu cynnal a'u cadw yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n glir ac yn gyfan.

PENDERFYNWYD – Argymhell i'r Cyngor gymeradwyo Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2019.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae yna ofyniad statudol i Awdurdodau Lleol o dan adran 60(3) a (4) Deddf Cefn Gwlad a hawliau tramwy i wneud asesiad newydd, adolygu eu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a gwneud penderfyniad ar newidiadau, dim mwy na 10 mlynedd ar ôl cyhoeddi'r cynllun blaenorol. Mae'n ofynnol yn y ddeddfwriaeth bod cymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn benderfyniad y Cyngor (Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth)(Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Cymru) 2007).

112

DIWEDDARU POLISI A FFIOEDD TRWYDDEDU TAI AMLFEDDIANNAETH

(Datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng Nghofnod 108 uchod)

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Pobl – Cymunedau, Partneriaethau, Gwarchod y Cyhoedd a Diogelwch Cymunedol a'r Aelod Arweiniol Lle – Tai, adroddiad ar y cyd (HEP/18/19) yn gofyn am gymeradwyaeth i'r polisi trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth a ddiweddarwyd; cymeradwyo ffioedd newydd sy'n ymwneud ag archwiliadau mewn fudo a'r cyngor cyn gwneud cais Tai Amlfeddiannaeth; a chymeradwyaeth i derfynu'r ffi gorfodi presennol o dan y Ddeddf Tai 2004 ar gyfer hysbysiadau ymwybyddiaeth o berygl.

Aeth yr Aelod Arweiniol Pobl – Cymunedau, Partneriaethau, Gwarchod y Cyhoedd a Diogelwch Cymunedol ati i gyflwyno'r adroddiad ac ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Cadarnhad bod yna newidiadau bach yn y ddogfen bolisi oedd yn ystyried newidiadau strwythurol o fewn y Cyngor.
- Gofynnwyd am eglurhad o ran pwy fyddai'n gyfrifol am sicrhau darpariaeth tystysgrifau diogelwch nwy, gwiriadau trydanol a larymau mwg, fel rhan o amodau'r drwydded.
Dywedodd Swyddogion bod Deddf newydd ar fin cael ei chyflwyno'n fuan, fyddai'n creu darpariaethau statudol, ond y landlord fyddai â'r cyfrifoldeb.

PENDERFYNWYD -

- (i) Bod y dull codi tâl diwygiedig ar gyfer ffioedd trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (Atodiad 1 i adroddiad HEP/18/19) yn cael ei fabwysiadu a bod y Polisi Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth a ddiweddarwyd (3ydd rhifyn) yn cael ei gymeradwyo.**
- (ii) Bod ffi arfaethedig o £100 ar gyfer adfer costau drwy archwiliadau mewn fudo yn cael ei gweithredu o 1 Ebrill 2019.**
- (iii) Bod ffi arfaethedig o £35 yr awr (neu rhan o awr) i berchnogion/landlordiaid/Asiantaethau Gosod Tai ar gyfer darparu cyngor ar y safle ar gyfer darpar Dai Amlfeddiannaeth yn cael ei gweithredu o 1 Ebrill 2019.**
- (iv) Bod y ffi gorfodi £415.50 ar gyfer hysbysiadau ymwybyddiaeth o berygl**

yn dod i ben o 1 Ebrill 2019.

- (v) Y dylid delio â'r mater hwn fel mater brys yn unol â Rheol Sefydlog 43(1) yn Rheolau Sefydlog y Cyngor.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (i) Sicrhau cydymffurfedd gyda Chyfarwyddeb Gwasanaethau Undeb Ewropeaidd (ESD 2006/123/EC) drwy weithredu'r trefniadau gweinyddu gofynnol gynted â phosibl yn dilyn penderfyniad y Bwrdd Gweithredol.
- (ii) Adfer costau a ysgwyddir drwy archwiliadau mewnfudo sy'n wasanaeth anstatudol.
- (iii) Adfer y costau llawn a ysgwyddir pan fydd Swyddog yn ymweld â darpar Dai Amfeddiannaeth ar gais landlord neu Asiant Gosod i roi cyngor cyn gwneud cais am drwydded.
- (iv) I alluogi Landlordiaid ac Asiantaethau Gosod Tai i ddefnyddio'r ffi £415.50 i dalu am waith i symud y peryglon a nodwyd yn yr hysbysiad ymwybyddiaeth o beryglon.

113

CYNLLUN ASESU A RHEOLI NODWEDDION ARDAL GADWRAETH CANOL TREF WRECSAM

(Datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng Nghofnod 108 uchod)

Roedd yr Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol wedi cyflwyno adroddiad (HEP/07/19) yn ceisio mabwysiadu Cynllun Asesu a Rheoli Nodweddion yr Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol yr adroddiad a chafwyd trafodaeth. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Pryder am annibendod stryd, gan gynnwys biniau masnachol, arwyddion stryd a hysbysfyrdau.
- Anesmwythder ynglŷn ag adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer gorfodi. Cafodd hyn ei gydnabod gan yr Aelod Arweiniol, ddywedodd ei fod wedi cael trafodaethau gyda Swyddogion ar sut i fynd i'r afael â'r mater hwn.
- Cydnabyddiaeth y gall atal hysbysfyrdau gael effaith negyddol ar rai busnesau bach.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo Cynllun Drafft Asesu a Rheoli Nodweddion Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam.

Rheswm dros y penderfyniad

Darparu arweiniad i'r sawl sy'n ceisio gwneud gwaith datblygu a newid o fewn Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam, sicrhau bod cymeriad arbennig ac

ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth yn cael ei ddiogelu neu ei wella.

114 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD - Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r Cyfarfod tra'r oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan ei bod yn debygol, pe baent yn bresennol, y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 15, Rhan 4 Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

115 **EBRILL 2019 DYFARNIAD LWFANS COST BYW NJC**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol adroddiad (HCCS/11/19) yn ceisio cymeradwyaeth i newid bach i strwythur graddio'r Cyngor sy'n codi o'r gofyniad i weithredu cytundeb tâl NJC y cytunwyd arno yn genedlaethol ar gyfer 2018 – 2020.

PENDERFYNWYD -

- (i) **Bod yr adolygiadau i'r strwythur tâl a graddio NJC sy'n codi drwy weithredu cytundeb tâl NJC 2018 – 2020, fel y manylwyd yn Atodiad 3 i adroddiad HCCS/11/19 yn cael eu cymeradwyo.**
- (ii) **Awdurdodi Rheolwr Gwasanaeth AD a Datblygu Trefniadaeth i weithredu'r ymarfer cymathu a gwneud y diwygiadau angenrheidiol i Bolisi Cyflog y Cyngor er mwyn adlewyrchu'r newidiadau y cytunwyd arnynt.**

Rheswm dros y penderfyniadau

Sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio dull teg a chyson ar gyfer tâl ac yn defnyddio'r cytundeb tâl NJC ar gyfer 2018 – 2020 i 1 Ebrill 2019.

Y Cyngorydd Mark Pritchard
Cadeirydd